Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

Comisiwn Ffiniau i Gymru

# Adroddiad Blynyddol 2024/25

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.

© Hawlfraint y Goron 2025 – Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfonwch neges e-bost at: psi@nationalarchives.gov.uk Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn cffg@ffiniau.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael o'n gwefan hefyd yn www.comffin-cymru.gov.uk

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Pennod 1 | Rhagair |
| Pennod 2 | Cyflwyniad |
| Pennod 3 | Amcanion |
| Pennod 4 | Canlyniadau |
| Pennod 5 | Cyllideb |
| Pennod 6 | Rhaglen Waith ar gyfer 2025/26 |

# Rhagair

Mae’n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25.

**Yr Anrhydeddus Mrs Ustus Jefford DBE**

**Dirprwy Gadeirydd**


CARDIFF
NEWPORT
Penarth
Portishead
Clevedon
Barry
Yatton
Congresbury
Cadoxton Sta.
St. Fagans
Cogan
Llandaff
Bleadon
Brent Knoll
Burnham
Axbridge
Weston
Mendip

# Cyflwyniad

## Y Noddwr

1.1 Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol cynghorol a noddir ac a ariennir yn gyfan gwbl gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG). Mae'r Arglwydd Ganghellor yn penodi'r Dirprwy Gadeirydd, ac mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn penodi aelodau'r Comisiwn, y Comisiynwyr Cynorthwyol, ac Ysgrifennydd y Comisiwn (gweler Aelodaeth isod).

## Y Comisiwn

1.2 Mae'r Comisiwn wedi'i gyfansoddi o dan adran 2 ac atodlen 1 Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd). Mae'n gorff annibynnol, anwleidyddol a chwbl ddiduedd. Nid yw'r Comisiwn yn ystyried ffactorau gwleidyddol ac nid yw effeithiau argymhellion y Comisiwn ar batrymau pleidleisio yn y dyfodol yn cael eu hystyried.

1.3 Ers 1 Ionawr 2002, mae swyddogion Ysgrifenyddiaeth Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC), sydd wedi'u lleoli yng Nghaerdydd, yn gwasanaethu Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Ffiniau hefyd. Er bod llety a rhai adnoddau staff yn cael eu rhannu, mae'r ddau Gomisiwn yn gweithredu'n annibynnol ar ei gilydd.

## Aelodaeth

1.4 Llefarydd Tŷ'r Cyffredin yw Cadeirydd ex-officio y pedwar Comisiwn Ffiniau Seneddol yn y Deyrnas Unedig. Mae penodi'r Llefarydd yn pwysleisio annibyniaeth, didueddrwydd a natur anwleidyddol y Comisiynau. Nid yw'r Llefarydd yn ymwneud â chynnal arolygon mewn unrhyw ffordd. Mae'r Dirprwy Gadeirydd, sy'n llywyddu'r cyfarfodydd, yn Farnwr Uchel Lys: yr Anrhydeddus Mrs Ustus Jefford. Yr Aelodau yw Mr Huw Vaughan Thomas CBE a Mr Sam Hartley (penodwyd y ddau o 05 Hydref 2020).

1.5 Penodwyd y Comisiynwyr yn rhan-amser ac maen nhw'n cyfarfod pryd bynnag y bydd y rhaglen waith yn gofyn am hynny. Talwyd ffi ddyddiol i Aelodau'r Comisiwn (heb gynnwys y Dirprwy Gadeirydd), y cytunwyd arni gan yr Adran Noddi gyda Thrysorlys EF, am waith a gynhaliwyd ar ran y Comisiwn ac, ynghyd â'r Dirprwy Gadeirydd, mae ganddynt yr hawl i adennill unrhyw dreuliau (fel teithio a chynhaliaeth) a gafwyd wrth wneud gwaith y Comisiwn.

1.6 Mae'r Comisiwn wedi sefydlu Cod Ymarfer a Chofrestr Buddiannau Aelodau, sy'n cael eu diweddaru'n flynyddol. Mae copïau o'r dogfennau hyn ar gael ar gais.

1.7 Mae gan y Comisiwn ddau aseswr statudol. Un yw'r Bwrdd Ystadegau (a gynrychiolir gan yr Ystadegydd Gwladol), a'r llall yw Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Arolwg Ordnans. Cynrychiolir y ddau gan ddirprwyon dynodedig yng nghyfarfodydd y Comisiwn.

1.8 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn penodi Ysgrifennydd i'r Comisiwn, hefyd. O dan drefniadau'r Ysgrifenyddiaeth ar y cyd, mae'r Ysgrifennydd, sef Mrs Shereen Williams MBE OStJ DL, yn Brif Weithredwr CDFfC, hefyd.

1.9 Rôl yr Ysgrifenyddiaeth yw gwasanaethu a chynorthwyo'r Comisiynwyr wrth gynnal eu harolygon a gweithredu eu penderfyniadau. Mae'r Ysgrifenyddiaeth wedi'i lleoli yn swyddfeydd Ysgrifenyddiaeth CDFfC yng Nghaerdydd, a chysylltir â MHCLG a Llywodraeth Cymru ynglŷn â staffio a llety. Mae'r berthynas waith hon yn destun memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng y ddau Gomisiwn a'u cyrff noddi unigol.

## Dyletswyddau Statudol

1.10 Prif swyddogaeth statudol y Comisiwn yw adolygu dosbarthiad seddau mewn etholiadau Seneddol yn barhaus, cynnal arolygon rheolaidd o ffiniau etholaethau Seneddol a gwneud adroddiadau gydag argymhellion i Weinidog Swyddfa'r Cabinet yn unol â darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd).

1.11 Gwnaeth Deddf Etholaethau Seneddol 2020 newidiadau sylweddol i'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu dosbarthiad seddau Seneddol.

1.12 Yn ogystal, dynododd y Ddeddf etholaeth Ynys Môn yn 'etholaeth warchodedig', cyflwynodd reol 'awtomatigrwydd' ynglŷn â gweithredu argymhellion y pedwar Comisiwn Ffiniau a gwnaeth newidiadau i'r broses ymgynghori.

# Amcanion

## Amcan Cyffredinol

2.1 Adolygu cynrychiolaeth Cymru yn Nhŷ'r Cyffredin yn barhaus.

## Amcanion Penodol ar gyfer 2024/25

2.2 Amcanion y Comisiwn yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25 oedd:

- Cyflawni unrhyw weithgareddau ac argymhellion sy'n deillio o'r ymarfer Gwersi a Ddysgwyd o Arolwg 2023 i baratoi ar gyfer Arolwg 2031.
- Paratoi adroddiad ar weithredu Safonau'r Gymraeg yn ystod 2023-24 a fydd yn cael ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg a'i gyhoeddi ar wefan y Comisiwn.
- Adolygu'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng CFfG – CDFfC – LIC – MHCLG
- Cwblhau'r ymarfer adleoli swyddfa.

## Safonau'r Gymraeg

2.3 Mae'r Comisiwn yn gweithredu polisi cwbl ddwyieithog. Bydd yr holl ddogfennau swyddogol a gyhoeddir gan y Comisiwn ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth gan unigolion a sefydliadau yn Gymraeg a Saesneg.

# Canlyniadau

## Cyfarfodydd

3.1 Roedd 1 cyfarfod o’r Comisiwn yn ystod y flwyddyn ariannol. Canolbwyntiodd y cyfarfod ar ystyried yr Adroddiad Blynyddol ac Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg. Mynychodd a chymerodd y Comisiwn ran yng nghyfarfod blynyddol Comisiynau Ffiniau’r Deyrnas Unedig ym mis Chwefror 2025, hefyd.

## Y Gymraeg

3.2 Cymeradwywyd a chyhoeddwyd adroddiad blynyddol y Comisiwn ar weithredu Safonau’r Gymraeg.

## Gwybodaeth

3.3 Mae’r Comisiwn yn sicrhau bod cymaint o wybodaeth ar gael i’r cyhoedd ag sy’n ymarferol trwy’r wefan (www.comffin-cymru.gov.uk). Ymatebir i geisiadau am wybodaeth nad yw ar gael ar y wefan. Mae’r Comisiwn wedi gosod targed o 20 niwrnod i ymateb i geisiadau o’r fath. Yn ystod 2024-25, derbyniodd y Comisiwn 9 cais am wybodaeth ac ymatebwyd i bob un o fewn 20 niwrnod. Mae hyn yn cymharu ag 11 o geisiadau a dderbyniwyd yn ystod 2023-24.

# Cyllideb

## Gwariant o fis Ebrill 2024 i fis Mawrth 2025

4.1 Cytunodd MHCLG i ddarparu cyllid sefydlog i'r Comisiwn i dalu am gost cynnal Ysgrifenyddiaeth wedi'i lleoli yng Nghymru yn ystod blynyddoedd pan nad oes unrhyw waith arolygu seneddol yn cael ei gynnal. Ar gyfer 2024-25, pennwyd £230,000 o gyllid sefydlog. Mae Tabl 1 yn dangos y categorïau amrywiol y dyrannwyd y cyllid sefydlog iddynt.

### Tabl 1 – Cyllideb

| Elfen o'r Gyllideb | Cyllideb (£) |
|---|---|
| Cyflogau Staff | 83,350 |
| Ffioedd Comisiynwyr | 2,528 |
| Llety Swyddfa | 79,000 |
| Teithio a Chynhaliaeth | 793 |
| Lletygarwch | 0 |
| TG a Thelathrebu | 43,875 |
| Costau Eraill Arolwg* | 20,454 |
| **Cyfanswm** | **230,000** |

*yn cynnwys costau cyfryngau a hysbysebu, hyfforddiant, postio, argraffu a chyfieithu.

## Ffioedd a Threuliau Aelodau

4.2 Yn ystod 2024-25, hawliwyd y ffioedd a'r treuliau canlynol gan Aelodau'r Comisiwn:

| Aelod | Ffioedd | Treuliau |
|---|---|---|
| Mr H V Thomas | £1,264 | £174 |
| Mr S Hartley | £1,264 | £173 |

# Rhaglen Waith ar gyfer 2025/26

5.2 Amcanion penodol y Comisiwn yn 2025/26 fydd:

- Cyflawni unrhyw weithgareddau ac argymhellion sy'n deillio o'r ymarfer Gwersi a Ddysgwyd o Arolwg 2023 i baratoi ar gyfer Arolwg 2031.
- Paratoi adroddiad ar weithredu Safonau'r Gymraeg yn ystod 2024-25, a fydd yn cael ei gyflwyno i Gomisiynydd yr Iaith a'i gyhoeddi ar wefan y Comisiwn.

## Cyllideb

5.3 Er mwyn gallu cyflawni'r amcanion a restrir yn 5.1 uchod, dyrannwyd cyllideb o £185,000 i'r Comisiwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26.



Comisiwn Ffiniau
i Gymru
Boundary Commission
for Wales

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, negeseuon e-bost a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.
I gysylltu â'r Comisiwn, ysgrifennwch at y canlynol:

Comisiwn Ffiniau i Gymru
4ydd Llawr, Adeiladau Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Rhif ffôn: +44 (0)29 20464819
E-bost: cffg@ffiniau.cymru

© Hawlfraint y Goron 2025